# Camau Gweithredu

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol (yr is-grŵp) |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13 Mehefin 2019 |
| **Lleoliad:** | Swyddfeydd Llywodraeth Cymru<br>Rhodfa Padarn<br>Llanbadarn Fawr<br>Aberystwyth<br>SY23 3UR<br><br>a thrwy Skype |

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson (Aelod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadeirydd)
Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)
Sara Jenkins (Menter a Busnes)
Creighton Harvey (Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin)
Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru)
Lorna Davis (NFU Cymru)
Stephen Marsh-Smith (Cyswllt Amgylchedd Cymru)
James Dowling (Llywodraeth Cymru)
Helen Haider (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Marc Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Sarah Hetherington (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Andrew Chambers (Llywodraeth Cymru)
James Dowling (Llywodraeth Cymru)
Ceri Davies (Undeb Amaethwyr Cymru)
Kirsten Hughes (Hybu Cig Cymru)

**Trwy Skype**

Steven Bradley (Dŵr Cymru)
Sophie Straiton (Dŵr Cymru)
Matt Lowe (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)
Meinir Wigley (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Liz Franks (Hafren Dyfrdwy)

**Ymddiheuriadau:**

Rhianne Jones (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad)
Jamie McCoy (AHDB)
Geraint Weber (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Kate Snow (United Utilities)

| Rhif: | Eitem |
| --- | --- |

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod, gan dynnu sylw at y ffaith fod defnyddio cyfleusterau Skype yn galluogi'r aelodau hynny nad oeddent yn gallu mynychu’n bersonol i gymryd rhan o hyd. Croesawyd Ceri Davies, Swyddog Polisi Undeb Amaethwyr Cymru, i'r is-grŵp a bydd yn mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 2. Diweddariad ynghylch Mynyddoedd Catskills

Rhoddodd Bob Vaughan gyflwyniad i'r grŵp am ei ymweliad diweddar ag Efrog Newydd i weld prosiect Mynyddoedd Catskills, sy'n darparu cyflenwad dŵr yfed i'r ddinas.

Yn y 1900au cynnar, nid oedd dŵr glân digonol ar gael yn lleol i gyflenwi Dinas Efrog Newydd. Fel yr hyn a ddigwyddodd yn y Deyrnas Unedig, edrychodd y ddinas tuag at ei chefnwlad wledig ar gyfer cyflenwadau digonol o ddŵr glân.  Adeiladwyd y gronfa ddŵr gyntaf yn Ashokan yn rhan ddwyreiniol Mynyddoedd Catskill er mwyn cyflenwi dŵr yfed o ansawdd uchel trwy piblinell er mwyn diogelu iechyd cyhoeddus ac ansawdd bywyd Dinas Efrog Newydd. Adeiladwyd cronfeydd dŵr pellach yn rhannau gorllewinol y Catskills.

Mae'r 30 mlynedd diwethaf wedi gweld cynnydd mewn safonau ansawdd dŵr yn yr Unol Daleithiau.   Mae Dinas Efrog Newydd wedi ceisio dylanwadu ar y gwaith o reoli’r dalgylch fel dewis amgen yn lle gwella ei gallu trin dŵr. Mae hyn oherwydd ei bod yn credu bod rheoli’r dalgylch yn ddewis amgen gwell a rhatach nag adeiladu a gweithredu cyfleusterau trin dŵr. O ganlyniad, mae wedi ymrwymo $2.7 biliwn tuag at raglenni diogelu gwahanfeydd dŵr.  Hyd yn hyn, nid yw wedi methu â darparu cyflenwad dŵr o fewn y safonau a osodwyd gan y Llywodraeth Ffederal.

Mae gwahanfa ddŵr Mynyddoedd Catskill yn amrywiol ac nid yw'n annhebyg i Fannau Brycheiniog.  Mae'r rhannau dwyreiniol wedi'u gorchuddio â llawer o goed ac mae ganddynt berygl uwch o erydu gwaddodion; mae'r rhannau gorllewinol yn fwy amaethyddol. Ceir rhaglen sydd wedi'i hariannu'n llawn a'i harwain yn lleol yn ardal y wahanfa ddŵr ac mae arferion rheoli gorau wedi cael eu gweithredu ar gost o $55 miliwn.  Gorchuddir 151,000 o erwau gan gynllun fferm gyfan gyda chynllunwyr yn ymweld â ffermydd ac yn asesu pryderon ynghylch adnoddau a nodau'r ffermwr.

Cynhelir gwelliannau ar ffermydd gan y grŵp cynghori, sy'n gosod seilwaith megis storfeydd slyri, toeau, siediau ac adeiladau.  Gosodir

storfeydd slyri chwe mis ar ffermydd er mwyn ymdopi â’r amodau tywydd amrywiol yn yr ardal. Gweithredir cynlluniau rheoli maethynnau ar bob fferm lle bo angen. Mae pob cae ar bob fferm wedi'i fapio gan ddefnyddio LIDAR ac mae asesiad cae yn cael ei gynnal i nodi ardaloedd lle na ddylid taenu ac ati.

Mae rhaglen gwella cadwraeth yn rhan o'r gwaith i leihau faint o ddŵr ffo sy’n mynd i mewn i gyrsiau dŵr, er mwyn cynyddu bioamrywiaeth ac atal erydu. Ar draws y dalgylch, cafwyd lleihad mewn colledion nitradau a ffosffadau. Yn 2017, cyrhaeddodd y rhaglen amaethyddol 841 o ffermwyr a chynhaliodd 37 o ddigwyddiadau ymgynghorol.

Mae dŵr o'r dalgylch yn llifo i mewn i draphontydd, sy'n cludo'r dŵr i gronfa ddŵr cyn iddo gyrraedd Dinas Efrog Newydd. Mae mesurau caeth ar waith i sicrhau nad yw ansawdd y dŵr yn cael ei effeithio gan bethau fel mynediad gan anifeiliaid i'r gronfa ddŵr.  Mae Dinas Efrog Newydd wedi buddsoddi yng nghymunedau’r Catskills, gan sicrhau bod ganddynt hefyd gyflenwad dŵr a systemau gwaredu â charthion digonol.

Ceir gorsafoedd synhwyro ledled y dalgylch, gan gynnwys bwiau ar y gronfa ddŵr, er mwyn monitro ansawdd y dŵr. O ganlyniad, os ceir problemau, megis gormod o waddodion mewn dŵr ffo mewn ardal benodol, gallant gymryd camau gweithredu ar unwaith i leihau'r perygl. Er enghraifft, maent yn cau'r mewnlifiad o'r un ffynhonnell, gan newid i un arall, neu maent yn ystyried cymryd dŵr o ansawdd gwell o ran o gronfa nad yw wedi'i llygru.

Er bod y rhaglen amaethyddol yn wirfoddol, gall ffermwyr nad ydynt yn cofrestru fod yn destun mesurau gorfodi lleol llym.

***Pwynt Gweithredu 1: Cylchredeg y canllaw cynllunio rheoli maethynnau a ddangoswyd i aelodau (Mark Williams / Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 2: Cylchredeg copi o gyflwyniad Mynyddoedd Catskills i aelodau (Mark Williams / Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

## 3. Diweddariad ynghylch rheoleiddio amaeth

Bydd y rheoliadau amaethyddol arfaethedig yn dod i rym ym mis Ionawr 2020, yn ddarostyngedig i'r Asesiad o’r Effaith Reoleiddiol sy'n cael ei gynnal gan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol (ADAS) a'r Gweinidog Lesley Griffiths yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael.  Mae ADAS wedi cadarnhau y bydd yn darparu adroddiad i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mehefin ac yna bydd aelodau'r is-grŵp yn gallu craffu arno. Bydd ADAS yn cael ei wahodd i gyfarfod gydag aelodau o'r is-grŵp er mwyn trafod y gwaith sydd wedi'i gynnal

mewn perthynas â'r Asesiad o’r Effaith Reoleiddiol.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi’n drafftio dogfennau canllaw ar gyfer y rheoliadau amaethyddol newydd, a fydd yn cael eu cylchredeg i aelodau unwaith y maent wedi'u cwblhau. Cododd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant bryderon ynghylch diffyg ymwybyddiaeth o'r rheoliadau amaethyddol newydd, gyda rhai yn credu mai canllawiau yn unig ydynt.  Cafwyd trafodaeth ynghylch y gwaith cyfathrebu sydd angen ei gynnal o ran y gofynion rheoleiddiol newydd. Er bod datganiad y Gweinidog a wnaed ar 14/11/18 ynghylch y rheoliadau amaethyddol newydd wedi'i gyfathrebu'n eang, nid yw manylion y gofynion rheoleiddiol wedi'u rhannu'n helaeth. Amlygodd Llywodraeth Cymru nad oedd cynnwys y rheoliadau amaethyddol arfaethedig wedi'i gytuno gan y Gweinidog eto felly nid oes modd eu cyhoeddi cyn y gwnaed hyn.

Cododd NFU Cymru bryderon nad yw ffermwyr yn gwybod am y rheoliadau newydd. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd yn cysylltu â'r undebau ffermio er mwyn sicrhau bod manylion y rheoliadau yn cael eu rhannu. Bydd ymgynghoriad ynghylch y rheoliadau amaethyddol newydd a'r canllawiau yn cael ei gynnal gyda'r is-grŵp, ond ni fydd ymgynghoriad ehangach.  Bydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau a fydd unrhyw negeseuon allweddol o ran y rheoliadau amaethyddol newydd yn cael eu rhannu yn Sioe Frenhinol Cymru ai peidio.

Amlygwyd yr angen i Lywodraeth Cymru fod aelodau yn cael gwybod am y llinell amser ar gyfer cyflwyno tystiolaeth i'r Gweinidog er mwyn iddi ei hystyried ochr yn ochr â'r Asesiad o’r Effaith Reoleiddiol. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod y ddogfen 'Manylion Rheoleiddio Newydd ar gyfer Gwybodaeth Gyhoeddus', a gylchredwyd i aelodau ym mis Ionawr, yn gallu cael ei rhannu gydag eraill y tu allan i'r fforwm.

***Pwynt Gweithredu 3: Trefnu cyfarfod gydag ADAS i drafod yr Asesiad o’r Effaith Reoleiddiol (Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru / Marc Williams / Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 4: Cadarnhau cofnodion o gyfarfod diwethaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rheoleiddiol ar 21/3/19 a diweddaru camau gweithredu sy'n weddill erbyn 14 Mehefin (Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 5: Rhoi gwybod i Marc Williams / Helen Haider os oes angen copi o'r ddogfen 'Manylion Rheoleiddio Newydd ar gyfer Gwybodaeth Gyhoeddus' (Pawb)***

## 4. Blaenoriaethau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru – sut y gallwn gyflawni:

- **Mwy o wybodaeth gan ffermwyr ynghylch llygredd dŵr**
- **Ymgysylltu â ffermwyr sy'n anodd iawn eu cyrraedd**

Yn ystod cyfarfod diwethaf is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, cynhaliwyd sesiwn i nodi blaenoriaethau'r grŵp ar gyfer y flwyddyn nesaf. Agorodd Zoe Henderson y drafodaeth gan amlygu bod y grŵp wedi gwneud ymdrechion sylweddol i rannu negeseuon allweddol o ran llygredd amaethyddol gyda ffermwyr, ond mae dal angen gweithio i ymgysylltu â ffermwyr sy'n anodd eu cyrraedd.

Dywedodd Creighton Harvey fod digwyddiadau wedi cael eu cynnal, fel digwyddiad NFU Cymru / Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin ar y cyd ym Maenordeilo, i ymgysylltu â ffermwyr o ran effeithiau llygredd, ond nid oes gan bysgotwyr y seilwaith i ymgysylltu â'r gymuned ffermio ar raddfa helaeth. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Afonydd 20 o swyddogion yn gweithio gyda ffermwyr ac, o'r adborth a gafwyd, roedd diffyg gwybodaeth ymysg ffermwyr o hyd ynglŷn â bywyd mewn nentydd ac afonydd sy'n llifo trwy eu ffermydd a dylai Cyswllt Ffermio gynnwys mewnbwn ffurfiol am hyn i ffermwyr. Nododd Sara Jenkins y byddai aelodau o Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin yn fodlon rhoi mewnbwn, a groesawyd gan Creighton.

Tynnodd Cyswllt Ffermio sylw at y ffaith fod grwpiau Agrisgôp dal yn cael eu cynnal. Mae ffermwyr yn ymgysylltu'n weithredol â’r dull gwirfoddol a arweinir gan ffermwyr o ran rheoli maethynnau a chyflwyno ceisiadau am gynigion cynlluniau rheoli cynaliadwy ac ati. Mae wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes un datrysiad unigol er mwyn lleihau llygredd amaethyddol a bod angen adnoddau i gyflawni newid.

Amlygwyd bod angen inni fel grŵp sicrhau bod yr un negeseuon allweddol yn cael eu rhannu a bod rhaid inni ymgysylltu ag ysgolion, colegau, ffermwyr ifanc a gwragedd ffermwyr er mwyn cyflawni'r gwelliannau rydym yn dymuno eu gweld. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr hyn rydym yn ei ystyried i fod yn ffermwr sy'n anodd ei gyrraedd, rhai o'r brwydrau y mae’n eu hwynebu o bosib, a strategaeth briodol ar gyfer gweithio gyda'r ffermwyr hyn.
Mynychodd Zoe Henderson Gynhadledd NFU Cymru ar 7 Mehefin a dywedodd ei bod yn falch o gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r pysgotwyr a'r ffermwyr oedd yno am amlygu'r dull newydd o gydweithio i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch yr angen i nodi pawb sy’n ymweld â ffermydd a allai fod yn fecanweithiau posibl ar gyfer cyflwyno negeseuon allweddol y grŵp.

Tynnwyd sylw at yr angen i nodi lle mae gwrteithiau organig yn cael eu taenu ac i benderfynu a yw’r ardal lle taenir y deunydd yn addas. Anfonwyd manyldeb prosiect o ran y maes gwaith hwn fel rhan o wahoddiad i dendro cyn y Nadolig mewn perthynas â datblygu offeryn System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i fapio dalgylchoedd i bennu eu statws maethynnau (h.y. a ydynt yn ddirlawn o ran maethynnau neu a oes ganddynt y gallu i dderbyn mewnbynnau maethynnau). Ni wnaed

unrhyw geisiadau llwyddiannus ar gyfer tendr y prosiect, ond mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal trafodaethau o ran gwneud gwahoddiad i dendro ar gyfer y prosiect unwaith yn rhagor a bydd yn rhoi adborth i'r grŵp am hyn.

Amlygwyd ei fod yn anodd codi pwnc llygredd amaethyddol fel pwnc unigol ac y dylai negeseuon y grŵp gael eu gwau i mewn i brosiectau eraill ac ati.  Dylid cael negeseuon cydgysylltiedig a thynnwyd sylw at yr angen i ailymweld â naratif y grŵp ac adnewyddu dogfennau.

***Pwynt Gweithredu 6: Rhannu manylion gyda grŵp o weithredwyr sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n ymweld â ffermydd (Lorna Davis, NFU Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 7:* Adolygu negeseuon allweddol a naratif y grŵp (Meinir Wigley, Cyfoeth Naturiol Cymru / Stephen Marsh-Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru / Liz Franks, Hafren Dyfrdwy / Kate Snow, United Utilities)**

## 5. Adroddiad Cynnydd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

Bydd drafft gweithredol o'r Adroddiad Cynnydd yn barod erbyn cyfarfod nesaf yr is-grŵp a bydd yn cysylltu â'r pum prif faes gwaith a amlygir o fewn yr Adroddiad Interim ar Lygredd Amaethyddol.  Bydd yr Adroddiad Cynnydd yn dangos yr hyn y mae'r grŵp wedi'i gyflawni ers yr Adroddiad Interim a'r camau nesaf.

***Pwynt Gweithredu 8: Adroddiad Cynnydd drafft erbyn cyfarfod nesaf is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Marc Williams / Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 9: Cyfrannau at gynnwys yr Adroddiad Cynnydd drafft (Pawb)***

## 6. Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

Mae Lorna Davis wedi trefnu digwyddiad ar fferm yng Nghemaes, Ynys Môn, ar 10 Gorffennaf er mwyn arddangos y gwaith y mae Gweithgor Cemaes wedi'i wneud i wella ansawdd y dŵr ymdrochi. Bydd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru hefyd yn ymweld â Chemaes ar 8 Gorffennaf a bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ar ôl hyn ym Mangor.

Mae ymweliad â Gwaith Trin Dŵr Merthyr Tudful yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod is-grŵp yn yr hydref/gaeaf.

***Pwynt Gweithredu 10: Cylchredeg manylion am ymweliad safle is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i aelodau (Helen Haider / Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

## 7. Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai a'r pwyntiau gweithredu nad ydynt wedi derbyn sylw

Darparwyd aelodau â chofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai a gofynnwyd eu bod yn cael eu gwirio er mwyn sicrhau eu bod yn gywir. Gofynnodd Zoe Henderson fod yr holl aelodau yn ceisio cwblhau unrhyw bwyntiau gweithredu nad ydynt wedi derbyn sylw.

Tynnodd Menter a Busnes sylw at y ffaith eu bod wedi cysylltu â 35 o gontractwyr amaethyddol mewn perthynas â'r Gwobrau Technegol ar gyfer y cwrs hyfforddiant ar y defnydd diogel o slyri a thail buarth. Dywedodd Meinir Wigley a Lorna Davis y gallent archwilio'r posibilrwydd o wneud fideo i hyrwyddo'r cwrs fel rhan o waith yn y dyfodol.

Tynnodd Meinir Wigley sylw at y ffaith ei bod yn dal i ystyried y posibilrwydd o gael eitem a ellid ei rhoi am ddim i ffermwyr yn ystod Sioe Frenhinol Cymru.

Mae adroddiad y Prosiect Llaeth yn cael ei adolygu a'i ddiwygio ar hyn o bryd fel ei fod yn cynnwys yr eitemau gweithredu a nodwyd yng nghyfarfod diwethaf yr is-grŵp.

***Pwynt Gweithredu 11: Adolygu cofnodion o gyfarfod 23 Mai ac anfon diwygiadau at Helen Haider / Marc Williams erbyn 5 Gorffennaf (Pawb)***

***Pwynt Gweithredu 12: Sicrhau bod camau gweithredu sydd heb eu cymryd o gyfarfodydd blaenorol yr is-grŵp wedi'u cwblhau (Pawb)***

***Pwynt Gweithredu 13: Cadarnhau manylion pellach a dyddiadau ar gyfer cynllun peilot Lantra o'r Gwobrau Technegol ar gyfer y cwrs hyfforddiant ar y defnydd diogel o slyri a thail buarth (Sara Jenkins, Menter a Busnes / Lorna Davis, NFU Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 14: Archwilio'r posibilrwydd o greu fideo neu rywbeth tebyg o astudiaeth beilot Lantra i'w ddefnyddio i annog eraill i ymgymryd â'r cwrs (Meinir Wigley, Cyfoeth Naturiol Cymru / Lorna Davis, NFU Cymru)***

## 8. Y diweddaraf ar weithgareddau perthnasol yn y dyddiadur

Bydd Zoe Henderson a Clare Pillman, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn mynychu cyfarfod Dyfrdwy a Chlwyd ? ym mis Medi.

Bydd Zoe Henderson a Bob Vaughan yn cynnal ymweliad safle ar Ystad y Rhug, lle mae system puro slyri yn cael ei datblygu.

Tynnodd Sara Jenkins sylw at y ffaith y byddai'r holl ffermwyr o'r cyrff dŵr targedig yn cael eu gwahodd i dderbyniad yn Sioe Frenhinol

Cymru. Bydd canlyniadau'r arolygon ffermwyr ac astudiaethau achos a wnaethpwyd gan Cyswllt Ffermio yn cael eu harddangos yn Sioe Frenhinol Cymru.

***Pwynt Gweithredu 15: Cylchredeg manylion y digwyddiad corff dŵr yn Sioe Frenhinol Cymru i aelodau (Sara Jenkins, Menter a Busnes)***

## 9. Unrhyw fater arall

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill o dan y pennawd hwn.